

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 8fed Medi 2020 am 7.30pm yn Ffestri Troedyrhiw

Oherwydd y sefyllfa bresennol (Covid 19), nid oedd hi'n bosib cynnal cyfarfod y Cyngor yn y canolfannau arferol. Trwy garedigrwydd Capel Troedyrhiw ac mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, cynhaliwyd y cyfarfod yn Ffestri'r Capel. Cwblhawyd asesiad risg gan y Clerc ac fe gymeradwywyd gan Y Cyng. Lynford Thomas, Swyddog Iechyd a Diogelwch y Cyngor. Rhannwyd y mesurau diogelwch â'r Cynghorwyr gyda'r Agenda ar y 3ydd o Fedi 2020 ac fe'u gwahoddwyd i rannu unrhyw bryderon parthed y trefniadau gyda'r Cadeirydd neu'r Clerc. Glynwyd wrth yr holl fesurau diogelwch cyn, yn ystod ac wrth adael y cyfarfod

1. PRESENNOL

Cynghorwyr : Glyn Davies (Cadeirydd), Gerwyn Owen, Johnny Davies, Harry Williams, Lyn Williams, Alan Henson, Haf Hughes Daniel Evans, Hywel Ifans

2. YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Lynford Thomas

3. DATGELU BUDDION PERSONOL

Rhoddion ariannol:- Capel Bethlehem Dihewyd Y Cyng. Gerwyn Owen Hywel Ifans a chwblhawyd y ffurflen berthnasol.

4. COFNODION

- i. Yn sgil Covid 19 nid oedd Neuadd Dihewyd ar agor ac felly nid oedd hi'n bosib cynnal ein cyfarfod diwethaf (11/8/2020) yn y Neuadd. Ar gais y Cyng. Gerwyn Owen, nodwyd bod y cyfarfod hwnnw wedi ei gynnal yn yr awyr agored y tu fas i Neuadd Dihewyd

Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Y Cyng. Alan Henson ac eiliwyd gan Y Cyng. Haf Hughes.

5. MATERION YN CODI – Dim materion I'w trafod

6. CYLLID

- i. Oherwydd yr ansicrwydd parthed cynnal cyfarfodydd dros fisoedd y gaeaf, cyflwynwyd y dogfennau isod i'w trafod er mwyn rhoi ystyriaeth i wariant gweddill y flwyddyn (2020-2021) a chynllunio ar gyfer 2021-2022 gan gynnwys y Praesept:-

I. Amcangyfrif o'r gwariant ac incwm erbyn 31/03/21

II. Cyllideb Ddraft 2021-2022

- iii **Hawl I Drosglwyddo.** Yn dilyn digwyddiad diweddar yn lleol pan alwyd ar wasanaeth yr ambiwlans awyr, gwnaed cynigiad gan Y Cyng. Gerwyn Owen i gynnig rhodd o £500 i'r elusen. Eiliwyd gan y Cyng. Harry Williams a derbyniwyd yn unfrydol. Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr, **penderfynwyd** arfer ein hawl i drosglywddo £500 o dan y pennawd 'costau eraill' yn y gyllideb i'r gyllideb

'rhoddion' er mwyn cwrdd â'r gost o'r cyfraniad ychwanegol hwn, yna derbyniwyd y gyllideb ddrafft yn unfrydol.

- ii. Derbyniwyd (I) a (II) uchod yn unfrydol a chadarnhawyd hawlio Praesept o £9950 ar gyfer 2021-2022 yn ôl yr arfer gan ddefnyddio £3000 o'r arian wrth gefn ar gyfer cyflawni prosiectau yn y gymuned fel ag a nodwyd.
- iii. **Tâl y Clerc** am fis Awst £191.66
- iv. **Ceisiadau ariannol.** Yn sgil Covid 19, cytunwyd bod lle i gynnig 20% yn fwy yn ôl y dymuniad i'r elusennau hynny oedd wedi gwneud cais. Yn dilyn trafodaeth lle y pwysleisiwyd ei bod hi'n bwysig i gefnogi elusennau lleol, penderfynwyd ar y canlynol:

Elusen/Mudiad	Swm	Cynigydd	Eilydd
C.FF.I Ceredigion	£1,000	Cyng. H. Williams	Cyng. G. Owen
Capel Bethlehem Dihewyd	£ 300	Cyng. H Williams	Cyng. A. Henson
Cyngor ar Bopeth	£ 50	Cyng. J. Davies	Cyng. H. Williams
HAVAV	£ 50	Cyng.H. Williams	Cyng. J. Davies
Gofal Mewn Galar	£ 50	Cyng. H. Hughes	Cyng. G. Owen
Tenovus	£ 25	Cyng. H. Williams	Cyng. D. Evans
Marie Curie	£ 25	Cyng. H. Ifans	Cyng. H. Hughes

- v. **Prosiect Cymunedol.** Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn paratoi dogfen yn amlinellu rhai syniadau a drafodwyd i'w hystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- vi. **Arosfan Bws Cribyn.** Paratowyd cynllun gwaith mewn ymgynghoriad â'r Cyng. Lyn Williams (dosbarthwyd gyda'r Agenda ar 03/8/2020) a gwahoddwyd tri adeiladydd lleol i gynnig am y gwaith, sef Owen Miles, Gwyndaf Davies ac Osian Potter. Dim ond un cynnig ddaeth i law gan Owen Miles. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd derbyn yr amcangyfrif hwn ac i'r Clerc i gydlynu â'r adeiladwr parthed deunyddiau ac amserlen.

7. GOHEBIAETH

Derbyniwyd cais am gefnogaeth ariannol gan Mrs. Glenys Owen, Ysgrifennydd Capel Bethlehem Dihewyd tuag at waith atgyweirio wal y fynwent. Trafodwyd y neges yn 6.iv.uchod.

8. CYNLLUNIO.

Ni dderbyniwyd ceisiadau cynllunio i'w hystyried.

9. TRAFOD CYFARFODYDD 2020-2021

Yn sgil y sefyllfa bresennol gyda Covid 19, cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r ffordd orau i weithredu dros y misoedd nesaf. Trafodwyd dau opsiwn sef:

- i. y posibilrwydd o gynnal cyfarfod o bell ar zoom
- ii. galw cyfarfod yn ôl yr angen i'w gynnal yn Festri Troedyrhiw.

Penderfynwyd yn unfrydol ar yr ail opsiwn gan nodi'r canlynol:

- bod yr asesiad risg angenrheidiol wedi ei gwblhau ar gyfer y Festri (i'w adolygu ar gyfer pob cyfarfod) a bod pawb yn cytuno bod y mesurau ar gyfer y cyfarfod hwn yn cydymffurfio â'r rheolau.
- telir £10 i'r capel am bob cyfarfod y cynhelir yno yn unol â'r swm a delir i'r canolfannau arferol.
- cytunwyd y byddai'r Clerc yn gweithredu yn unol â'r trefniadau presennol parthed talu biliau cysylltu âg Adran y Priffyrdd os adroddir unrhyw broblemau a chysylltu â'r aelodau dros e-bost am faterion yn ymwneud ag unrhyw ohebiaeth berthnasol neu faterion cynllunio mewn a hynny mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd.
- cedwir yr opsiwn i gynnal cyfarfod-o-bell yn agored os caiff cyfyngiadau clo eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Bydd Y Cyng. Hywel Ifans yn arwain ar y gofynion technegol.

10. UNRHYW FATER ARALL

- I. **Golau Stryd Cribyn.** Tynnodd Y Cyng. Lyn Williams sylw at y ffaith bod golau'r stryd SL38 ar y Long Room yng Nghribyn ar y B4337 wedi dod yn rhydd a'r lamp ei hun wedi cwmpo. **Penderfynwyd** cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn iddo gael ei atgyweirio ac am amcangyfrif o'r gost.
- II. **Hewl Dihewyd I Giliau Aeron.** Tynnodd Y Cyng. Hywel Ifans sylw y nifer o gerbydau/treilars sydd wedi'u parcio y tu allan i'r annedd gyferbyn â'r Capel Undodiadd sy'n golygu bod gyrwyr sy'n teithio o Dihewyd i gyfeiriad Cile yn cael eu gorfodi i dynnu mas a dreifo ar ochor anghywir y ffordd ar y cornel. **Penderfynwyd** ysgrifennu at Glerc Cyngor Cymuned Cililau Aeron i rannu ein pryderon.
- III. **C1015** Mae'r hewl wedi cael wyneb newydd a phawb yn ddiolchgar am y gwelliant. Fodd bynnag, mae yna ran o'r ffordd – rhwng Ffatri Penwern a Pandy - sy'n peri peth gofid. Yn y darn goediog, dywyll mae rhan bach nad oes ganddo rwystr i'r cae islaw. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd i dynnu sylw at y peryg posib.
- IV. **Yr hewl o SA48 7NL hyd at gyffordd Penlangroes, Cribyn.** Mae cyflwr yr hewl yn wael. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd i ofyn os oes gwaith ail-wynebu wedi'i drefnu ar gyfer y ffordd hon yn y dyfodol agos. Os nad oes dyddiad wedi ei bennu, dymuniad y Cynghorwyr yw trefnu ymweliad â'r safle gyda'r swyddogion er mwyn asesu'r sefyllfa.

- V. **Arwyddbost Cribyn. B4337** . Mae'r arwyddbost wrth y Capel wedi diflannu'n llwyr. Penderfynwyd cysylltu ag Adran y Priffyrdd i ofyn a oes yna gynlluniau i roi un arall yn ei le.

DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Ni phennwyd dyddiad yn unol â 10 ii.uchod